Prosiect X

Llyfr Llafar gyda chôd QR

Cylchrediad Dŵr



DRAKE

Steve Parker

Cylchrediad Dŵr

Cynnwys

Yn y dechrau...	2
Dan ddaear	4
Yn yr afon	6
Braf a glân	8
Dŵr yn y cartref	10
Lawr y gwter	12
Dŵr iasoer	14
Pŵer dŵr	16
Dim llawer o ddŵr	18
Allan i weld y môr	20
O'r môr i'r awyr	22
Geirfa	24
Mynegai	24

Steve Parker

DRAKE

Yn y dechrau...



Amser maith yn ôl, yn uchel yn yr awyr, roedd diferyn bychan o ddŵr. Roedd e'n arnofio yn yr awyr. O'i amgylch roedd miliynau o ddiferion eraill. Gyda'i gilydd gwnaethon nhw gwmwl.

Doedd y cwmwl ddim yn wyn a meddal.
Roedd e'n gwmwl glaw tywyll a llaith.
Dechreuodd y diferyn dŵr ddisgyn.
Disgynnodd yn gynt ac yn gynt.
Diferyn glaw oedd e nawr.

Disgynnodd y diferyn glaw i lawr, i lawr, ac yna SBLASH! Disgynnodd ar ben deinosor. Sbonciodd i'r llawr a **suddodd** i mewn i'r pridd.



Dan ddaear

Teithiodd y diferyn dŵr i lawr yn araf drwy'r pridd. Aeth heibio i gerrig, mwydod a gwreiddiau planhigion. Aeth yn ddyfnach i'r ddaear. O'r diwedd suddodd i mewn i nant o dan y ddaear. Roedd y nant yn oer ac yn llifo'n gyflym iawn.



Llifodd y nant drwy dwll yn ochr y bryn. Tasgodd i lawr y bryn ac ymuno â nentydd eraill. O'r diwedd llifodd y diferyn dŵr i afon lydan, dawel.



Yn yr afon

Roedd y diferyn dŵr yn hoffi'r afon. Roedd llaw
o anifeiliaid yn byw yno. Roedd brwyn tal ar hy
y glannau. Roedd llif y dŵr yn araf a thawel.




brwynen
lili ddŵr
broga
chwilen blymio
chwyn y dŵr
malwoden ddŵr

Braf a glân

Mae'r afon yn llifo tua'r dref. Mae peth o'r dŵr yn arllwys i mewn i **bibellau**. Mae mwd, sbwriel a **germau** yn nŵr yr afon. Rhaid ei lanhau cyn y gall pobl ei ddefnyddio.

Beth sy'n digwydd mewn gwaith trin dŵr



1. Dŵr brwnt yn mynd mewn i'r pibellau.
2. Yn mynd drwy farrau a sgriniau. Mae hyn yn hidlo allan wrthrychau mawr fel dail a brigau.
3. Ychwanegu **cemegolion** i lanhau'r dŵr.
4. Dŵr yn llifo ymlaen drwy gerrig mân a thameidiau mân o dywod. Hyn yn hidlo allan wrthrychau bach iawn a baw.
5. Rhagor o gemegolion yn cael eu hychwanegu i ladd germau.



Dŵr yn y cartref

Bob dydd yn ein cartrefi, rydym yn defnyddio llawer o ddŵr. Troi'r tap ymlaen ac allan y daw. Meddyliwch am yr holl ffyrdd rydym yn defnyddio dŵr. Faint sydd yn y llun?




Beth wnelech chi heb ddŵr ar dap?

Lawr y gwter

Mae'r diferyn dŵr yn byrlymu i lawr twll y plwg i'r **gwter**. Mae dŵr o'r toiled yn mynd yno hefyd. A dŵr glaw.





Dŵr budr yn llifo drwy'r gwaith trin dŵr lle mae'n cael ei lanhau.

Rhaid glanhau'r dŵr budr o'r gwter. Fel arall bydd yn niweidio'r pysgod ac anifeiliaid eraill yr afon. Mae'r dŵr budr yn llifo 'nôl i'r gwaith trin dŵr. Yma mae'n cael ei lanhau eto. Mae'r sebon, baw, past dannedd a defnyddiau eraill yn cael eu tynnu allan. Mae'r dŵr glân yn llifo 'nôl i'r afon.

Dŵr iasoer

Mae'n aeaf. Mae'r dŵr mor oer, fedrith e ddim llifo. Mae'n rhewi'n galed. Gelwir dŵr wedi rhewi yn iâ. Mae gorchudd iâ yn rhewi ar wyneb y dŵr.





Yn y gwanwyn, pan mae'n gynhesach, bydd yr iâ'n toddi 'nôl i ddŵr. Bydd yr holl afon yn llifo eto.

Pŵer dŵr

Mae'r diferyn dŵr yn cyrraedd wal ar draws yr afon. Mae'r wal yn atal y rhan fwyaf o'r llifiant. Enw'r wal yw argae.



1. Dŵr yn casglu y tu ôl i'r argae i ffurfio llyn mawr.
2. Dŵr yn llifo drwy bibellau tu fewn i'r argae.
3. Yn gwasgu olwynion o'r enw tyrbinau i wneud iddynt droelli.
4. Y tyrbinau yn cynhyrchu trydan.
5. Trydan yn teithio drwy wifrau i'w ddefnyddio gennym ni.

Mae'n dywyll a swnllyd yma. Dwi'n gobeithio mynd drwy hyn yn iawn.

Mae'r argae'n ddefnyddiol iawn. Fel mae'r dŵr yn llifo drwy bibellau y tu fewn iddo, mae'n gwasgu ar y tyrbinau. Mae'r dŵr yn gwneud i'r tyrbinau droelli. Mae hyn yn cynhyrchu trydan.



Dim llawer o ddŵr

Mae'r afon yn llifo ymlaen. Mewn rhai gwledydd twym mae anialwch. Dydy'r tir bob ochr ddim yn cael llawer o law. Mae'n sych iawn a dim ond ychydig o blanhigion all dyfu.

Mae amser hir heb ddŵr neu law'n cael ei alw'n sychdwr. Rhaid i bobl sy'n byw mewn llefydd sych fod yn ofalus rhag gwastraffu dŵr.





Mae pobl yn palu ffosydd hir i gludo dŵr o'r afon i'w caeau.

Allan i weld y môr

O'r diwedd mae'r afon yn cyrraedd y môr. Mae'r diferyn dŵr yn arnofio ar hyd yr arfordir. Mae traeth tywodlyd yno lle mae pobl yn cael hwyl.



Mae'r diferyn dŵr yn arnofio allan i'r môr mawr agored. Mae'r rhan fwyaf o ddŵr y byd yn y moroedd a'r cefnforoedd. Mae'r rhan fwyaf o arwynebedd y Ddaear wedi ei orchuddio â dŵr.



O'r môr i'r awyr

Mae'r haul yn cynhesu'r dŵr yn y môr. Mae'r gwres yn troi'r dŵr i rywbeth na fedrwn ei weld, sef anwedd. Mae'r anwedd yn mynd i fyny i'r awyr lle mae'n oerach. Yna mae'r anwedd yn troi 'nôl i ddiferion dŵr ac yn ffurfio cwmwl. Mae'r cwmwl yn chwythu dros y tir. Mae'n dechrau glawio...




Mae diferion dŵr fel fi yn mynd rownd a rownd. Dyma beth yw cylchrediad dŵr. Dyma fi'n dechrau eto!
haul
cymylau
anwedd dŵr
môr

Geirfa

cemegolion defnyddiau a geir yn natur neu a wnaed mewn labordy gwyddonol

cwter pibell sy'n cludo dŵr i ffwrdd dan y ddaear

germ rhywbeth bach byw sy'n rhy fach i'w weld

llifo pan mae dŵr yn llifo mae'n symud ymlaen

pibellau tiwbiau gwag mae nwy neu hylif yn teithio drwyddynt

suddo disgyn yn ddwfn i rywbeth

Mynegai

afon 5, 6, 8, 13, 15, 18, 20
arfordir 20
argae 16, 17
cefnfor 21
cwmwl 2, 22
cwmwl glaw 2
cylchrediad dŵr 23
diferyn dŵr 2
diferyn glaw 2
gwaith trin dŵr 8–9, 12
iâ 14
llyn 16
sychdwr 18
traeth 20